# BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 8 – Hydref 2017

**RHIFYN ARBENNIG**

# Cofio Edward Tegla Davies 1880-1967


## Nodyn Golygyddol

Yn y rhifyn hwn o *Bathafarn Bach* rydym yn cofio bywyd a gwaith Edward Tegla Davies a fu farw hanner canrif yn ôl ym mis Hydref 1967. Trefnodd y Gymdeithas Hanes gyfarfod llwyddiannus yn Nhregarth ar 20 Mai eleni pan glywsom ddarlith am Tegla gan y Parch. Ddr Huw John Hughes. Gallwch ddarllen y ddarlith yma ynghyd ag ysgrif am Tegla ac Islwyn Ffowc Elis gan Rheinallt Llwyd, cyn-aelod o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth a golygydd y gyfrol am Islwyn Ffowc Elis yn y gyfres 'Bro a Bywyd'. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddau awdur am eu cyfraniadau.

Er ein rhifyn diwethaf mae'r Pwyllgor Hanes wedi colli un o'i aelodau mwyaf ffyddlon a gwybodus, sef y Dr Glyn Tegai Hughes. Talwyd teyrnged teilwng iawn iddo gan Gwyndaf Roberts yn y *Gwyliedydd* Mehefin-Gorffennaf 2017. Trwy gydol ei fywyd prysur a disglair mewn llawer o feysydd cadwodd Glyn Tegai ei ddiddordeb yn ein hanes a'i ffyddlondeb i'r Gymdeithas Hanes. Ar ôl i'n cylchgrawn hanes *Bathafarn* ddod i ben, fe gafodd y syniad o ddechrau *Bathafarn Bach.* Cofiwn gyda diolch ei gyfraniad enfawr i fywyd Cymru ac i'r Eglwys Fethodistaidd.

## Cofio Tegla – ac Islwyn

Aeth bron i hanner canrif heibio er pan fu farw E. Tegla Davies ar 9 Hydref 1967 a deugain mlynedd er pan draddodwyd darlith lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r cylch gan Islwyn Ffowc Elis ar y testun 'Dirgelwch Tegla'. Mae'n briodol, felly, dwyn i gof hynt a gyrfa un o ffigurau llenyddol amlyca hanner cynta'r ganrif ddiwethaf yng Nghymru ac ystyried y berthynas rhwng Tegla ac Islwyn Ffowc Elis, un o'i edmygwyr a'i amddiffynwyr ffyddlonaf.




Cyn sôn am yrfa Tegla diddorol yw nodi'r modd y caiff ei ddisgrifio yn rhai o'n cyfeirlyfrau pwysicaf. 'Gweinidog a llenor' yw'r disgrifiad yn *Y Bywgraffiadur Cymreig ar-lein;* 'llenor' yw'r term a geir yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* ac 'awdur' yw'r gair a ddefnyddir yn *Gwyddoniadur Cymru* ac yno ychwanegir ei fod 'ymysg awduron rhyddiaith gorau hanner cyntaf yr 20g. yn y Gymraeg'. Ond y tri gair arwyddocaol sydd ar garreg fedd Tegla ym mynwent Eglwys y Santes Fair, Tregarth, ar wahân i'w enw a dyddiadau ei eni a'i farw, yw 'Gweinidog yr Efengyl'. Mae'n amlwg mai dewis eiriau Tegla ei hun sydd ar y garreg fedd ac mai fel gweinidog yr ystyriai ei hun goruwch popeth. Gweinidog oedd hefyd yn hoff o lenydda; yn wir, yn llenor wrth reddf. A dyna, o bosibl, paham y daeth yn ffigwr mor ddadleuol ymysg beirniaid llenyddol Cymru ac yn ŵr yr oedd cryn anghytuno ynglŷn â'i arwyddocâd a'i statws. Ond o un peth nid oes amheuaeth: yr oedd maint ei gynnyrch llenyddol yn rhyfeddol o ystyried ei yrfa brysur fel gweinidog Wesleaidd. Cyhoeddodd ' fwy na deugain o lyfrau a llyfrynnau i gyd' ynghyd â channoedd lawer o gyfraniadau i gylchgronau a phapurau newydd yn ogystal â degau o sgriptiau radio. A'r cyfan wedi eu saernïo'n ofalus mewn Cymraeg graenus a rhywiog. Bu hefyd yn olygydd prysur ar *Y Winllan* (1920-28), *Yr Efrydydd* (1931-35) a *Cyfres Pobun* (1944-50). Dyma gipolwg sydyn ar ei yrfa.

Ganwyd Edward Davies, fel yr adwaenid ef i ddechrau, i rieni tlawd a di-nod yn Llandegla-yn-Iâl ar 31 Mai 1880 yn bedwerydd o chwech o blant. Yn ddiweddarach, ar ôl dechrau pregethu y mabwysiadodd Tegla fel enw canol ac wrth yr enw hwnnw y daethpwyd i'w adnabod weddill ei oes. Bro amaethyddol gwbl Gymraeg ei hiaith oedd Llandegla yn ystod plentyndod Tegla a diau mai yno, yn ystod deuddeg mlynedd cyntaf ei oes, y meithrinwyd ei gariad angerddol at bethau'r wlad a dirgelion byd natur. Symudodd y teulu i ardal fwy diwydiannol ei natur, ym Mwlch-gwyn, yn ddiweddarach ac yn yr ysgol yno y treuliodd Tegla saith mlynedd fel disgybl-athro nes oedd yn 21 oed. Bu'r profiad hwnnw'n amhrisiadwy iddo'n ddiweddarach pan ddechreuodd ysgrifennu ei lyfrau i blant.

Yn ddwy ar bymtheg oed dechreuodd bregethu a rhoi ei fryd ar fod yn weinidog gyda'r Wesleaid. A dyna ddechrau'r symud di-ben-draw, 'bywyd carafanaidd gweinidog Wesleaidd', i wahanol ardaloedd cyn ac wedi dychwelyd o'r Coleg yn Didsbury, Manceinion, lle cafodd ei hyfforddiant. Rhwng 1901 ac 1946, blwyddyn ei ymddeoliad o'r weinidogaeth, dyma'r ardaloedd y bu'n byw ynddynt : Ffynnongroyw (1), Manceinion - Coleg Didsbury (3), Abergele (1), Leeds (1), Porthaethwy (3), Felinheli (1), Tregarth (3), Llanrhaeadr-ym-Mochnant (5), Tregarth (3), Dinbych (3), Manceinion (3), Lerpwl ( 3), Bangor (5), Manceinion (3), Coed-poeth (5), Tregarth (2). Fe welir iddo dreulio tair blynedd ar ddeg (gan gynnwys ei flynyddoedd coleg) mewn dinasoedd yn Lloegr a naw ohonynt ym Manceinion. Mae'n anodd dirnad beth oedd effaith y fath symud parhaus ar weinidog a'i deulu ond yr hyn a roes i Tegla


*Islwyn Ffowc Elis*

yn sicr oedd amrywiaeth rhyfeddol o brofiadau mewn ardaloedd tra gwahanol.

Mae pob tystiolaeth yn awgrymu iddo fod yn weinidog cwbl ymroddedig a chydwybodol ac yn wir yn rhai o'i weithiau mae'n ymosod yn bur ddidrugaredd ar yr hyn a eilw'n weinidogion 'diog'. Ni wyddai ef ystyr y gair - fel bugail gofalus na phregethwr na gofalwr cylchdaith. Meddylier, er enghraifft, am y gwaith enfawr oedd ganddo pan aeth i Lanrhaeadr ym Mochnant yn Awst 1914. Gofalai am dair eglwys benodol yn Llanrhaeadr, Llangynog a Phen-y-bont-fawr yn ogystal â bod yn rhan o gylchdaith eang o ddeuddeg eglwys. A'i brif gyfrwng trafnidiaeth oedd ei feic neu'r 'ceffyl haearn' fel yr hoffai Tegla gyfeirio ato! Hyd 1932 yr oedd yn ofynnol i bob gweinidog Wesle symud bob tair blynedd ond cafodd aros yn Llanrhaeadr am bump oherwydd y Rhyfel Mawr. Bu'n rhyfeddol hapus yn yr ardal honno gan faentumio mai dyna'r 'fro debycaf yn natur ei thraddodiad i fro fy mebyd y bûm yn trigo ynddi'. Ac yna ychwanegodd: 'Cyfarfûm â mwy o gymeriadau gwreiddiol yn Llanrhaeadr a'r cylch nag yn unman arall erioed, yn enwedig ar ffiniau'r eglwysi ac o'r tu allan iddynt'. Bu'n gyfnod ffrwythlon iddo'n llenyddol hefyd.

Os bu iddo ddechrau pregethu'n ifanc, felly hefyd fel egin lenor. Daeth yn gynnar dan ddylanwad O. M. Edwards ac yn ddeunaw oed danfonodd stori 'Sam a'r crystyn a'r cortyn' i *Cymru* (1898). Cafodd anogaeth arbennig yn y cyfnod hwn gan athro ifanc yn ysgol Bwlch-gwyn, sef Tom Arfor Davies, a fu'n gaffaeliad enfawr iddo. Fel llawer i lenor ifanc arall yng Nghymru a thu hwnt ymddangosodd ei straeon cynnar fel cyfresi mewn cyfnodolion cyn eu cyhoeddi'n gyfrolau printiedig. Felly y cyflwynwyd Tomi Sara Jones a'i ffrindiau i ddarllenwyr Cymraeg *Y Winllan* cyn i'r gyfrol *Hunangofiant Tomi* ymddangos am y tro cyntaf yn 1912. A dyna fu'r patrwm gyda llawer o'r cyfrolau creadigol ac arloesol eraill a gynhyrchodd i blant rhwng 1912 ac 1938, cyfrolau nodedig megis *Tir y Dyneddon* (1921), *Nedw* (1922), *Rhys Llwyd y Lleuad* (1925), *Iesu o Nasareth* (1927), *Hen Ffrindiau* (1927), *Y Doctor Bach* (1930), *Stori Sam* (1938). Yn bersonol mae gen i atgofion byw iawn o ddarllen a mwynhau'r rhain oll pan oeddwn i'n blentyn ysgol gynradd yn nechrau'r 1950au ac mae iddynt oll le anrhydeddus yn fy llyfrgell hyd heddiw. Cynnyrch awdur mewn oes a chyfnod arbennig ydynt, wrth reswm, ac yn y goleuni hwnnw y dylid mesur eu gwerth a'u harwyddocâd.

Cynhyrchodd lai o weithiau ffuglennol i oedolion ond roedd ymddangosiad *Gŵr Pen y Bryn* (1925), ei unig nofel hir, yn garreg filltir bwysig yn hanes datblygiad y nofel Gymraeg er iddi dderbyn cryn feirniadaeth. Cyhoeddodd nofel llawer byrrach, *Gyda'r Glannau* (1941) ac mae i hon arwyddocâd hefyd ac yn 1934 roedd *Y Llwybr Arian a Storïau Eraill* wedi ymddangos. Wedi 1941 canolbwyntiodd ar gyhoeddi casgliadau o ysgrifau a phregethau a dwy gyfrol o atgofion gan gynnwys ei hunangofiant difyr *Gyda'r Blynyddoedd* (1952). Ond fe adawaf i'r sawl a'i cyflwynodd am radd Doethur mewn Llenyddiaeth (D.Litt) er anrhydedd ym Mhrifysgol Cymru yn 1958, Yr Athro Griffith John Williams (Caerdydd), restru ei ragoriaethau fel llenor:

> Gwyddom amdano fel pregethwr a darlithydd ac fel un o arweinwyr yr Eglwys Wesleaidd yng Nghymru, ond heddiw, yr ydym yn cofio amdano fel un o lenorion mwyaf toreithiog y ganrif hon, gŵr y mae nwyd y llenor wedi ei yrru ymlaen ar hyd y blynyddoedd, arbrofwr aflonydd a yrrwyd i ddefnyddio llawer ffurf lenyddol, y stori, a'r ffantasi i blant, y nofel, y stori fer, yr ysgrif, yr erthygl, yr hunangofiant. Difrifwch llenor a ganfyddir hyd yn oed yn ei lyfrau i blant. Cofiwn oll am y llyfrau hynny, *Hunangofiant Tomi*, *Tir y Dyneddon*, *Nedw*, *Rhys Llwyd y Lleuad*, a *Hen Ffrindiau*. Y mae'r hud a'r lledrith a'r dychymyg a'r doniolwch yn y rhain wedi swyno cenedl. Troes lyfrau i blant yn llenyddiaeth, megis yn *Hen Ffrindiau*, lle y mynnodd ryddhau'r cymeriadau a gaethiwyd yn yr hen hwiangerddi a gwneuthur iddynt rodio'r ddaear fel meidrolion. Yn wir, llwyddodd y dewin hwn i yrru plant Cymru i'r lleuad ymhell cyn ein dyddiau sbwtnicaidd ni! Ie, dawn ac awen ac afiaith y llenor, ond llenor sydd beunydd yn ymboeni i berffeithio'i ddawn, llenor aflonydd sydd hefyd yn sylwedydd manwl a threiddgar ar y byd Cymreig ac ar y cymhellion sy'n llywio'r meddwl dynol, a gŵr sy'n ymdeimlo â thrasiedïau a rhyfeddod bywyd. Dyna a welir yn ei nofelau, megis *Gŵr Pen y Bryn*, ac yn ei storïau a'i erthyglau. Hyn gyda'i ddychymyg a'i ddyfeisgarwch, a'i hiwmor, a'i arddull loyw, sydd wedi rhoi iddo'i le ymhlith llenorion pwysig ein hoes ni. Mae'n aml yn feirniad llym a miniog a didrugaredd ar y Gymru a wêl ef, a geill gloi ei feirniadaeth mewn brawddegau cofiadwy. Yr ydym heddiw yn anrhydeddu gŵr y mae Cymru a'i phobl a'i phethau yn ei feddwl beunydd, beunos. Ond y tu ôl i'r beirniadu a'r hwyl a'r hiwmor, gellir canfod ei ddifrifwch, ei ddiffuantrwydd, ei ddynoliaeth, ac angerdd ei argyhoeddiadau, y pethau sydd wedi ei yrru ymlaen hyd ddyddiau henoed.

Ac roedd mwy o gyfrolau i ddod! Ymddangosodd ei gyfrol olaf, *Y Dyhead,* yn haf 1966 ac yntau'n 86 mlwydd oed.

Ond nid oedd Tegla a'i lyfrau yn apelio at bawb a chafodd ei siâr o feirniadaeth mewn adolygiadau ac erthyglau beirniadol. Maentumiai amryw fod 'moeswersi'r pregethwr yn rhy amlwg' yn ei lyfrau i blant ond daeth y feirniadaeth fwyaf deifiol o du Saunders Lewis wedi cyhoeddi *Gŵr Pen y Bryn*. Yn ei bamffledyn, *An Introduction to Contemporary Welsh Literature* (1926), datganodd Saunders fod 'The mildew of evangelicalism taints Tegla Davies' work …' ac eglura ymhellach: 'What Tegla Davies lacks is cruelty, or in other terms, artistic integrity. He wants to save people, even the people of his imagination. He cannot leave them to complete the evil that is in them, but must convert them to repentance and amiability. That kind of mind is not likely to produce a masterpiece of fiction'.


Cafodd beirniadaeth Saunders gryn effaith ar Tegla, gŵr a ddioddefodd trwy gydol ei oes o ddiffyg hyder yn ei allu ei hun fel llenor serch iddo gael gradd M.A., er anrhydedd, gan Brifysgol Cymru yn 1924 yn gydnabyddiaeth o'i allu fel 'llenor creadigol'. Un arall fu'n hallt ei beirniadaeth ar agweddau o waith Tegla oedd Kate Roberts. Yn fuan wedi cyhoeddi *Y Doctor Bach* cyhoeddwyd erthygl ganddi dan y pennawd 'Gwendidau Tegla Davies' yn *Y Ddraig Goch* (1930) a'i

gyhuddo o fod yn greulon gyda rhai o'i gymeriadau. 'Ymddengys,' meddai 'bod yng nghalon Mr Davies ryw atgasedd at wendidau corff ac at wendidau cymeriad.' Aiff ymlaen i ddatgan mai 'Goganwr yw Mr Davies' gan haeru 'bod goganu wedi mynd yn atalnwyd arno ef ac yn fwrn arnom ninnau…anfantais yr awdur yw ei fod yn bregethwr. Mae esbonio, cyfeirio at wendidau a dangos rheol bywyd yn iawn o'r pulpud, ond nid mewn stori'.

I feirniad llenyddol mwy diweddar, Yr Athro R. M. Jones (Bobi Jones), ymddengys mai'r ffaith fod Tegla yn bregethwr o fath arbennig oedd yn cyfrif fod llawer o'i weithiau mwy diweddar, ei 'gyfnod homilïaidd' chwedl Bobi, yn ddiffygiol a chyfeiria ato fel 'Elfed ein rhyddiaith':

> Prin y bydd pobl ifainc y dyddiau hyn yn medru darllen ysgrifau Tegla wedi'r rhyfel. Lladmerydd achos colledig yw ef, a'i acenion llyfn a charedig yn perthyn i blaned arall. Gwelodd ef yn ystod ei oes dranc anghydffurfiaeth Gymreig fel y'i hadwaenid yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Heddiw ni chlywn ond olion trist a diflas yr adleisiau a fu gynt. *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (1975)

Bu R. M. Jones, serch hynny, yn ddigon mawrfrydig i gydnabod ei ragoriaethau yn ogystal â'r gwendidau gan ddatgan fod 'amryw o lyfrau plant Tegla yn arddangos gallu anghyffredin' ac mai ef yn sicr 'a luniodd lyfrau-plant cyfoethocaf ei gyfnod'.




Dychwelaf at Islwyn Ffowc Elis a *Dirgelwch Tegla*. Os oedd gan Tegla ei feirniaid amlwg roedd ganddo hefyd ei edmygwyr a'i gefnogwyr o ddyddiau cynnar ei yrfa lenyddol. Yn eu plith roedd W. J. Gruffydd, T. Gwynn Jones, E. Morgan Humphreys a Thomas Parry a thri arall y maentumiai Bobi Jones iddynt orfoleddu i raddau 'perlewygus' mewn 'ymgyrch hir a brwd' o blaid Tegla, sef Dyddgu Owen, D. Tecwyn Lloyd ac Islwyn Ffowc Elis. Yn wir i Bobi, 'rhyw fath o asiant i Tegla yw Islwyn Ff. Elis: yr hyn oedd Peate i W. J. Gruffydd dyna yw Islwyn i Tegla'.

Diddorol fyddai cymharu'n fanwl yrfaoedd Tegla ac Islwyn ond nid oes ofod i hynny yma. Digon yw dweud fod cryn dipyn yn gyffredin rhyngddynt ond bod hefyd wahaniaethau sylweddol. Er ei eni yn nhref Wrecsam, brodor o Ddyffryn Ceiriog oedd Islwyn a magwraeth wledig a gafodd mewn ardal nid annhebyg i Landegla. Cafodd Islwyn, fodd bynnag, fwy o fanteision bore oes o ran addysg a chefndir diwylliannol. Byddai enw a gweithiau Tegla'n gyfarwydd iddo o'i fachgendod cynnar gan y byddai'r holl lyfrau plant, o *Hunangofiant Tomi* hyd at *Stori Sam,* ar aelwyd Aberwiel, Nantyr. Ac yn 1940, ac yntau'n 15 oed, fe luniodd Islwyn nofel ar gyfer cystadleuaeth yr oedd Tegla'n feirniad arni. Ni ddaeth dim o'r nofel honno! Kate Bosse Griffiths gyda'i *Anesmwyth Hoen* enillodd. Yn wir, ni welodd Islwyn y pregethwr-lenor hyd Fawrth 1949 pan aeth i angladd T. Gwynn Jones yng nghapel Salem Aberystwyth. Flynyddoedd yn ddiweddarach fe ddisgrifiodd yr achlysur mewn ysgrif yn *Taliesin* (1968):

> Ond ynghanol y niwlen mae un darlun hollol glir. Tegla yn y pulpud. Yn sefyll fel y byddai bob amser yn sefyll mewn pulpud, yn dalsyth, hardd ddisymud, un llaw wedi'i chroesi'n ofalus dros y llall. Ei wyneb main gwyn, dan ei gwmwl crychwallt arian, yn dal dau lygad mawr glas oedd yn dilyn y llong dros bennau astud y gynulleidfa. A'r llais tenau undonog, cyfareddol hwnnw'n adrodd ei gyfeillgarwch â T. Gwynn Jones.

Aeth tair blynedd arall heibio cyn i'r ddau gyfarfod, wyneb yn wyneb, a hynny yng Nghyfronnydd, yn 1952, lle'r oedd Dyddgu Owen yn brifathrawes ac Islwyn erbyn hynny'n weinidog ifanc yn Llanfair Caereinion. 'Wedi'r cyfarfod cynta hwnnw,' meddai Islwyn, 'fe ddylanwadodd Tegla arna i mewn mwy nag un ffordd tan ddydd ei farw bymtheg mlynedd yn ddiweddarach'. Ac o fewn tair blynedd i'r cyfarfod cyntaf roedd Islwyn wedi casglu a golygu'r gyfrol deyrnged *Edward Tegla Davies: Llenor a Phroffwyd* a gyhoeddwyd gan Wasg y Brython yn Ebrill 1956. Bryd hynny roedd Islwyn, a adawsai'r weinidogaeth i fod yn awdur llawn amser, a Tegla yn ei ymddeoliad, ill dau yn byw ym Mangor.

Ymgais oedd y gyfrol deyrnged, yn ôl rhagair ei golygydd, i wneud iawn am na chafodd Tegla ei gynnwys yn *Gwŷr Llên,* y gyfrol a olygwyd gan Aneirin Talfan Davies yn 1948 lle trafodwyd deuddeg o lenorion mawr yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. 'Beio'r byd llenyddol Cymreig yr wyf,' meddai Islwyn yn ei ragair 'am ei gwneud yn bosibl cyhoeddi llyfr ar wŷr llên y ganrif heb gynnwys ynddo ysgrif ar un o'r pwysicaf ohonynt'. A dyna mewn gwirionedd oedd gwir neges ei ddarlith lenyddol dros ugain mlynedd yn ddiweddarach yn Eisteddfod Wrecsam 1977. Sonia'r ddarlith am ddau ddirgelwch mawr sef yn gyntaf fod gŵr o gefndir mor ddinod a difreintiedig wedi tyfu'n llenor mor gynhyrchiol a choeth a hynny heb unrhyw draddodiad llenyddol yn gefn iddo, heb addysg Gymraeg o fath yn y byd heb sôn am addysg ysgol ramadeg a phrifysgol. O ble daeth y gallu a'r weledigaeth a'r dychymyg mawr? A'r ail ddirgelwch i Islwyn oedd sut y bu i lenor mor doreithiog ac amlweddog 'lithro o olwg beirniadaeth lenyddol gyfoes' yn llwyr ac 'o oriel yr anfarwolion'? A'r neges ar ddiwedd eithaf ei ddarlith oedd fod angen ailddarganfod Tegla o ddifrif. Er iddo awgrymu yr hoffai wneud hynny wedi ei ymddeoliad ef ei hun nid felly y bu. Nid oedd gan Islwyn na'r egni na'r dyfalbarhad a berthynai i Tegla. Ond fe gafodd Islwyn, fel y gweddill ohonom, weld cyhoeddi dwy gyfrol werthfawr arall ar y llenor o Landegla, sef *Tegla*, cofiant Huw Ethall a ymddangosodd yn 1980, ac *E. Tegla Davies*, astudiaeth bwysig a chraff y Dr Pennar Davies a gyhoeddwyd yn y gyfres 'Writers of Wales' yn 1983. Ac onid y peth doethaf y gall pob un ohonom ninnau ei wneud yn y flwyddyn arbennig hon yw ailddarganfod 'dirgelwch Tegla' drosom ein hunain?

*RHEINALLT LLWYD*

# Tegla: Gŵr y Gobaith

## 'GWELEDIGAETH DDOE SYDD GENNYM AR BOPETH'

Darlith a draddodwyd yng Nghapel Shiloh, Tregarth 20 Mai 2017

Geiriau Tegla o'r *Cymro* yn 1934 sy'n destun y ddarlith i'r Gymdeithas Hanes eleni. Geiriau oedd yn crynhoi meddylfryd Tegla gydol ei oes. Teimlai ein bod yn byw gormod ar brofiadau ddoe yn hytrach nag edrych ymlaen i anturiaethau'r presennol a'r dyfodol. Ond os wnewch chi faddau i mi, rydw i am ddechrau ar nodyn personol. Mi bechodd fy nain! Roedd hi'n eneth ifanc, dair ar ddeg oed, pan ddaeth Tegla i Dregarth am y tro cyntaf. Yn y dosbarth derbyn yn y capel hwn, yn ôl pob tystiolaeth, rhoddodd lyfr i bob aelod o'r dosbarth, genethod i gyd yn digwydd bod a phan gyrhaeddodd ben y rhes doedd ganddo 'run i'w roi i fy nain ac meddai, 'Mi wnaiff yn iawn ar bapur i chi.' Ffyrnigodd fy nain. Aeth adref ar gefn ei cheffyl a dweud wrth ei thad, oedd yn flaenor i Mr Davies, ei bod am adael y capel a mynd i'r eglwys. A dyna ddigwyddodd ac fe aeth â'i phedair chwaer gyda hi yn y fargen!

Yn ystod ei bywyd byddai fy nain yn cyfeirio'n ysbeidiol at yr 'hen Tegla Davies 'na' ond erbyn blynyddoedd olaf ei bywyd credaf ei bod wedi maddau iddo. Ar fore'r Groglith 1961 ar ôl gwrando ar oedfa'r bore dan ofal Tegla Davies roedd hi'n amlwg wedi'i phlesio, 'Roedd Tegla Davies yn dda iawn bora 'ma ar y weiarles!!'


Heddiw, dyma gyfle i mi wneud yn iawn am y digwyddiad hwnnw dros ganrif yn ôl bellach. Yr hyn ydw i am wneud ar hanner canfed blwyddyn ei farw ydi pwyso a mesur y dyn a'i bersonoliaeth ynghyd â'i gyfraniad llenyddol a diwinyddol a cheisio rhoi pictiwr cytbwys ohono. Er na chefais i'r fraint o'i gyfarfod na'i glywed yn pregethu nac yn darlithio rwyf wedi dod i'w adnabod trwy ei waith a hefyd trwy sgyrsiau mynych â'r diweddar Mr Huw Elwyn, ei ŵyr oedd yn byw nid nepell oddi wrthyf yn y Borth. Byddai Huw a'i gi a minnau yn treulio oriau bwygilydd ar Ynys Tysilio yn trafod 'taid' chwedl Huw.

Mi rydw i am rannu'r ddarlith dan benawdau penodol, y pedair D: Diwydrwydd, Dylanwadau, Dychymyg a Diwinyddiaeth.

### DIWYDRWYDD

Llosgaist hyd ddyddiau llesgedd – i ddeifio
Ac i ddifa'n llygredd,
Herio ein holl anwiredd,
A dadlau dros hawliau hedd.
(Gwilym R. Tilsley)

Mae'r ystadegau moel yn mynd â'ch gwynt. Gweinidog yn Ffynnongroyw, Abergele (dros dro tra roedd yn y coleg yn Didsbury), Leeds, Porthaethwy, Y Felinheli, Tregarth, Llanrhaeadr ym Mochnant, Tregarth, Dinbych, Manceinion, Lerpwl, Bangor, Manceinion, Coedpoeth, Tregarth - symud o un ardal i'r llall bymtheg o weithiau! Ysgrifennodd 39 o gyfrolau (17 ohonynt yn gyfrolau i blant). Bu'n olygydd *Y Winllan* rhwng 1920 ac 1928, *Yr Efrydydd* rhwng 1931 ac 1935 a *Cyfres Pobun* rhwng 1944 ac 1950. Cerrig sarn oedd y cylchgronau iddo ef. Yn *Y Winllan* y cyhoeddwyd *Hunangofiant Tomi, Nedw, Y Doctor Bach, Rhys Llwyd y Lleuad, Hen Ffrindiau* a *Stori Sam* a *Dechrau'r Daith* sef ei holl lyfrau plant ac eithrio *Iesu o Nasareth, Branwen Ferch Llŷr* a'r *Greal Sanctaidd* a llyfrynnau ar gymeriadau'r Beibl. Mae ganddo erthyglau yn y *Geiriadur Beiblaidd, Y Bywgraffiadur* (gweinidogion Wesla i gyd), *Llyfr Mawr y Plant,* Drama: 'Mary' ac un emyn wedi'i gyhoeddi, 'Arglwydd maddau fy amheuon'. Dwy nofel, *Gŵr Pen y Bryn* a *Gyda'r Glannau* ynghyd ag erthyglau yn dwyn y teitl 'O'r Gadair' i'r *Herald Cymraeg.* Yn ogystal â hyn i gyd roedd yn pregethu ar y Suliau, yn bugeilio'r praidd, yn trefnu'r plan a'r galw arno i ddarlithio, cadeirio a mynychu cyfarfodydd yn lleng. Mi fuaswn i'n dweud fod y symud bob tair blynedd cyn Undeb y Methodistiaid yn 1932 ac ar ôl hynny ymestyn y tymor aros i bum mlynedd, yn ddigon o fwrn a thrafferth ynddo'i hun. Ac y mae rhaid cofio fod ganddo wraig a thri o blant i'w magu. Mae'n amlwg fod Tegla'n weithiwr diarbed oedd yn barod i rannu ei ddoniau i wahanol gyfeiriadau a gwahanol gyfryngau.



## DYLANWADAU

Dwyn hedd a chymod i'n hoes, – a dwyn barn
Ar ragfarn a drygfoes,
Troi hynt dyn, trwy nwyd d'einioes,
At Grist, a haeddiant ei Groes.
(Gwilym R. Tilsley)

Yr hyn fyddai'n brigo i'r wyneb dro ar ôl tro wrth siarad â'i ŵyr oedd fod taid yn berson ansicr ohono'i hun i'r graddau, yn enwedig yn y blynyddoedd olaf, ei fod yn poeni'n ddybryd am farn eraill amdano. Ni allai dderbyn unrhyw feirniadaeth negyddol am ei waith fel llenor na phregethwr. Mae ei arfer o ddefnyddio ffugenw yn digwydd yn aml ac mae hyn yn dangos cryn ansicrwydd o'i eiddo. Yn ddienw y cyhoeddodd *Hunangofiant Tomi* am y tro cyntaf yn *Y Winllan* a phan ymddangosodd y nofel, *Gŵr Pen y Bryn* am y tro cyntaf yn *Yr Eurgrawn*, yr awdur oedd Mr T. S. Jones, U.D.A. a thybiodd pawb fod y golygydd wedi dod o hyd i Gymro alltud o'r Unol Daleithiau ond dehongliad o'r enw oedd 'Tom Sara Jones, un diniwed anghyffredin'. 'Eisteddwr' oedd y ffugenw o dan ei lithoedd wythnosol yn yr *Herald Cymraeg*. Arwydd sicr o'i ddiffyg hyder a barhaodd drwy ei oes. Felly i ddyn oedd mor sensitif roedd yn bwysig fod ganddo ffrindiau a chyfeillion a fyddai'n gefn iddo yn y dydd blin. Rhywun y gallai droi ato gan wybod y câi solas a chefnogaeth. Do, fe gafodd gyfeillion triw a ffyddlon ym mawrion ein cenedl. Ym mlynyddoedd y meithrin cafodd gefnogaeth William Jones (Ehedydd Iâl) awdur yr emyn 'Er nad yw nghnawd ond gwellt' ac yn yr athro ifanc o ardal y Bermo, Tom Arfor Davies a'i cyflwynodd i waith Syr O. M. Edwards gan annog y Tegla ifanc i anfon stori, 'Sam y crystyn a'r cortyn' i'r *Cymru* yn 1898. Anfonodd un arall, oedd yn llawer gwell na'r gyntaf ym marn Tegla, ond ni chafodd honno ei chyhoeddi.

Yn ei arddegau dylanwadwyd arno gan bregethwyr o radd Ben Davies, Pant Teg; Hwfa Môn; Rhys J. Hughes a John Evans, Eglwysbach. Ond yn Nhregarth yn ystod ei gyfnod cyntaf daeth i gysylltiad ag Urdd y Macwyaid sef criw fyddai'n cyfarfod yn eithaf rheolaidd ar aelwyd Tegla ym Mhant Teg. Y prif facwy oedd Ifor Williams (Syr wedyn), ynghyd â macwy'r haf sef R. Williams Parry, ac Elidir Sais, athro Saesneg yn Ysgol Sir Bethesda, perthynas i'r Athro W. J. Gruffydd. Tegla ei hun oedd yn arddel y teitl y macwy hir. Addas iawn! Bu Syr Ifor yn ddylanwad mawr yn y dyddiau blin yn ei annog i fynd ymlaen er gwaetha'r anawsterau. Ar ôl gadael Tregarth a dechrau gweinidogaethu yn Llanrhaeadr ym Mochnant bu'n ffodus iawn i gyfarfod â gŵr athrylithgar arall, Yr Athro T. Gwynn Jones. Rhoddwyd gwahoddiad i'r Athro i ddod i annerch ar y Perganiedydd ym 1917 i ddathlu dau gan mlynedd ei eni, a ninnau eleni'n dathlu tri chan mlynedd ei eni. Credai Tegla nad oedd Gwynn Jones yn Gristion ond wrth sgwrsio, yn dilyn y cyfarfod y noson honno, mynegodd yr Athro'n blaen fod y rhyfel mawr wedi'i wneud yn Gristion. 'Ydi,' meddai'r Athro, 'ond wyddoch chi beth a wnaeth o i mi? Fy ngwneud yn Gristion.' (E. Tegla Davies *Gyda'r Blynyddoedd*, t.163.)



Bu'r gŵr amlwg hyn yn nodded ac yn gefn i Tegla pan oedd storm beirniadaeth anghysurus yn cau amdano. Teimlodd i'r byw pan ymosododd Saunders Lewis yn ddiflewyn ar dafod ar ei nofel *Gŵr Pen y Bryn* pan ddywedodd nad oedd y nofel yn ddim ond pregeth gyda rhagarweiniad a thri phen. Trodd at Gwynn Jones i geisio achub ei gam ac anogodd yr Athro i ymateb i honiadau Saunders Lewis ond gwrthod ymateb wnaeth yr Athro. Mewn llythyr at ei gyfaill Islwyn Ffowc Elis y mae'n cydnabod i ryw raddau ei fod yn groen denau a'i fod wedi 'torri fy nghalon, ond gŵr afiach ofnadwy denau ei waed, a'i fywyd yn y fantol, a gafodd ergyd. Pe bawn yn iach ar y pryd y mae'n sicr y buasai pethau'n wahanol.' (H. Ethall, *Tegla*, t.87-8.)

Diddorol yw sylwi fod D. Tecwyn Lloyd yntau wedi ymuno yn y ddadl ac wedi mynd cyn belled â honni fod y ddeuoliaeth Huw a Huwcyn, er enghraifft, yn yr un person yn ddarlun sy'n dadlennu ansicrwydd Tegla ohono'i hun a'i fod yntau'n ddau neu hyd yn oed yn fwy o bersonau gwahanol. Gellir tybio fod hyn hefyd wedi tramgwyddo Tegla'r awdur. Ym 1954, yn *Y Dydd*, papur y Bala mae 'Arenig' yn canmol y nofel i'r entrychion, 'hyhi yw'r nofel Gymraeg fwyaf a sgrifennwyd er dyddiau'r Pedair Cainc – heb eithrio nofelau Daniel Owen. Yr unig Gymro arall a lwyddodd i dreiddio cyn belled â Tegla Davies i eneidiau ei gymeriadau yw Williams Pantycelyn, serch nid mewn nofel y gwnaeth hynny.' Yn ôl Tegla ei hun, D. Tecwyn Lloyd oedd 'Arenig'. (*Y Dydd,* 30 Gorffennaf 1954.)

Cyn iddo gyhoeddi ei gyfrol *Tir y Dyneddon* i blant derbyniodd lythyr canmoliaethus gan Syr Idris Bell, ysgolhaig yn y clasuron a chyfieithydd llenyddiaeth Gymraeg i'r Saesneg, yn dyrchafu'r gyfrol i'r entrychion gan fynnu: 'I urge you very strongly to publish it and most sincerely trust that an enterprising firm may be found to do it justice. There never was greater need for such creative work.' (H. Ethall, *Tegla,* t.72.) Mae'n amlwg fod y mwyafrif o'r ysgolheigion Cymreig yn gweld rhinweddau canmoladwy yn ei waith. Ond yn anffodus y mae un adolygiad pigog yn sicr o aros a gadael ei ôl. Yn ôl ei ŵyr, yn ei flynyddoedd olaf, byddai'n treulio cyfnodau pruddglwyfus pan fyddai rhywun wedi meiddio anghytuno, anghydweld a beirniadu ei ymdrechion. Ond diolch bod ganddo ddylanwadau o galibr y rhai y crybwyllwyd eu henwau. A gwelodd Prifysgol Cymru yn dda i'w anrhydeddu â gradd M.A. er anrhydedd ym Mangor a chyflwynwyd ef gan yr Athro (erbyn hyn) Ifor Williams gyda'r geiriau hyn a roddodd gryn fwynhad i Tegla ynghanol tryblith 1924: 'Fel un o bencampwyr llenyddol ein cenedl, llwyr deilynga'r anrhydedd a roir gan Brifysgol Cymru'. (H. Ethall, *Tegla,* t.92.) Yn 1958 cyflwynwyd iddo radd Doethur mewn Llenyddiaeth er anrhydedd gan Brifysgol Cymru ac yntau bellach yn 78 oed. Meddai yr Athro Griffith John Williams wrth ei gyflwyno:

> ...Hyn gyda'i ddychymyg a'i ddyfeisgarwch, a'i hiwmor, a'i arddull loyw sydd wedi rhoi iddo'i le ymhlith llenorion pwysig ein hoes ni.

Cyn pen dim roedd Gwilym R. Tilsley wedi cyfansoddi englyn iddo:

Di-raddau awdur oeddit, – yn y man
Yn M.A. y cerddit;
Yn awr yn fawr dy ferit
Hawlio dy le â D.Litt.
(H. Ethall, *Tegla,* t.205.)

## DYCHYMYG

Nos dawel dawnsiai dewin – aflonydd
Ar flaen dy ysgrifbin,
Dôi'r Tylwyth Teg i gegin
Lwydwedd drwy dy ryfedd rin.
(Gwilym R. Tilsley)

Mae Gwilym R. Tilsley, awdur yr englynion yn y ddarlith hon, wedi cymharu tri phregethwr mawr y Wesleaid oedd yn gweinidogaethu tua'r un cyfnod trwy ddefnyddio un gair i grynhoi doniau'r tri: Tecwyn Evans – hudoledd; Roger Jones – ysgolheictod; Tegla – dychymyg. Amlygir y gynneddf hon yn holl waith llenyddol a chrefyddol Tegla – yn ei nofelau a'i bregethau. Crynhoaf fy sylwadau ar Tegla fel llenor plant yn unig am ddau reswm, sef gofod a'm diddordeb personol ym maes llenyddiaeth plant. Yn fy marn i y mae tair elfen yn rhan o gynhysgaeth llenor plant. Yn y lle cyntaf y mae'n ifanc ei feddwl. Darllenwch holl gynhyrchion Tegla ac amlygir hyn yn glir. A defnyddio ei symbolaeth ei hun, mae ôl y gwanwyn arnynt, sglein newydd, newydd-deb ac asbri a nwyf byrlymus grym newydd. Yn y gwanwyn yr oedd ei ddiddordeb ac meddai ef ei hun: 'nid oes grym mwy dinistriol na chwalfaol na grym y gwanwyn a phetai'n clustiau'n ddigon tenau fe glywem glecian y tyfiant o'n hamgylch ar bob llaw.' Dydi geiriau ddim yn ddigon i gyfleu hyn. Mae'n gallu rhyfeddu a synnu: nodweddion ydi'r rhain sy'n perthyn i fyd plentyn. Mae'n gallu uniaethu â hwy yn eu profiadau. Llwyddodd Tegla i fyw y gwanwyn trwy gydol ei fywyd. Doedd o ddim yn sôn yn hiraethus am wanwyn ei fywyd ei hun na chwaith eiddigedd at bobl ifanc yng nghanol berw eu gwanwyn hwy. Pam? Oherwydd roedd o'n dal i fyw nodweddion y gwanwyn gydol ei fywyd. Yn ei dair cyfrol gyntaf, *Hunangofiant Tomi, Nedw* a *Doctor Bach* mae ôl gwanwyn newydd arnyn nhw. Cyn hyn roedd cyfrolau i blant yn drwm, yn bell o brofiad plentyn, yn bruddglwyfus ond yn fwy na dim yn bregethau bychain a moes wers ar gynffon pob un. Dyma i chi un enghraifft o hanes marwolaeth Lisi Bach, chwaer Tomi. Hawdd iawn fyddai i'r bennod hon fod yn drom a dagreuol. Ond yr hyn a geir yma ydi profi profedigaeth drwy lygaid plentyn: 'Mi adawes i mam i fynd i chwarae, lle iawn i neidio ynddo ydi mynwent.' Wedyn pwyslais yr hen straeon fyddai ar y plentyn yn dweud ei adnod yn ddeddfol gywir ond meddai llenor y gwanwyn, 'Rydw i'n siŵr nad oedd Iesu Grist ddim yn gofyn i bob plentyn wela fo am adnod – neu fuasai'r plant ddim mor ffond ohono ag oedden nhw.' Mae'n dangos fod gan blant hawl i fod yn blant a holl brofiadau plentyndod yn eiddo iddynt. Heddiw rydym eisiau i blant dyfu i fyny yn sydyn ac o wneud hynny yn eu rhwystro rhag profi rhin ac asbri'r gwanwyn yn eu bywydau.

Yr ail elfen ydi dod i adnabod yr hil ddynol, a gwybod am eu cynefin a'u gweithgarwch. Fel gweinidog Wesla cafodd brofi rhychwant eang o ardaloedd – dinesig, trefol a chefn gwlad – a deuai ar draws pobl mewn gwahanol sefyllfaoedd, mewn oedfa a seiat, angladd a bedydd, cymdeithas a Band of Hope. Daliai ar bob cyfle i sylwi, cofnodi a thrysori'r cyfan a'u tynnu o'r cof i greu ei lenyddiaeth. Er iddo, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, awgrymu mai ardal lom oedd bro ei blentyndod mi gredaf i ei fod wedi drachtio'n helaeth o'r fro honno. Yma y bu'n rhaid iddo greu ei ddiddanwch ei hun. Mae'n cael ei gyfareddu gan fyd natur ac mae'n sylwi bod rhyw berthynas gyfrin rhwng pob dim, boed goeden, planhigyn, pryfyn, afon neu fynydd. Mae ganddo stori amdano'i hun yn gwylio lindysyn yn troi'n chwiler a'r chwiler yn ymagor yn löyn byw hardda erioed. Roedd y gynneddf ganddo i ddotio, synnu a rhyfeddu. Nodweddion y plentyn ydi'r rhain. Yn ei ddwy gyfrol, *Tir y Dyneddon* a *Stori Sam* mae'r gynneddf o ddotio a rhyfeddu ar eu gorau. Rhewodd Pistyll Rhaeadr drosto ar 29 Ionawr 1917 a dechreuodd sgwennu'r gyfrol *Tir y Dyneddon* y diwrnod canlynol. Hon oedd y Deml Rew, 'nid oedd yn debyg i bistyll wedi rhewi, ond megis teml orwych, wedi ei hadeiladu o risial', a dyma 'lle clywir y glaswellt yn tyfu, a gwybed yn cerdded fel ceffylau, a llais dyn yn uwch na tharanau.' A dyma ni ar ein hunion ym myd y tylwyth teg – byd hud a lledrith. Y mae pob plentyn yn gwerthfawrogi'r byd hwn – byd ffantasi. Dyma'r byd y gall wireddu ei freuddwydion – byd y dychymyg. *Star Wars* a phethau cyffelyb yw byd ffantasi y dyddiau hyn. Mae Syr Ifor Williams yn codi'r em hon i'r entrychion:

> If I were to describe 'Tir y Dyneddon' as a delightful piece of imaginative writing after the manner of Swift's 'Gulliver's Travels,' I should be doing the author a good deal less than justice.
> (H. Ethall, *Tegla,* t.72.)

Dyma flas o'r dychymyg hwnnw:

> "Wel, wel," meddwn wrthyf fy hun eilwaith, "dyma'r wlad ryfeddaf y bûm ynddi erioed – llais dyn yn uwch na tharanau, yr afon yn rhuo'n rhy uchel i'w chlywed, ac felly'r corsennau mawr; y glaswellt i'w clywed yn tyfu, corsennau, bron yn anweledig, yn canu yn yr awel, gwybed yn cerdded fel ceffylau, ac am y creaduriaid bach yma sydd fel dynion, y maent hwy'n rhyfeddach na dim!"
>
> "Lle mae'ch clustie chi?" ebe fi wrth y ddau a safai o'm blaen yn archwilio fy sodlau."
>
> "Dene'r mynydd yn siarad eto," ebe un dan ei lais.
>
> "Well inni ateb, dywed?" ebe'r llall, "holi am ein clustie y mae o."
>
> "Dyma nhw," ebe'r naill, gan deimlo'r glust fach, ac edrych i fyny ar un o hoelion fy esgid.
>
> "Rhai bach iawn," ebe fi.
>
> "Feder pobol clustie mawr ddim rhedeg yn gyflym, mae'r gwynt yn eu dal," eb ef.
>
> "Mae gan *Em* glustie mawr, a feder o ddim rhedeg fawr i gyd," ebe'r llall.
>
> Edrychodd y ddau ar ei gilydd wedyn, ac i fyny tua'r awyr fel pe'n chwilio am fy llais yno. O'r diwedd mentrodd un ddywedyd:
>
> "Brawd i mi ydi *Em*."
>
> "Ydi clustie mawr yn rhwystro rhedeg?" ebe fi.
>
> Arhosodd y ddau am dipyn yn fud gan edrych yn syn a brawychus."

Yn ôl cyfaddefiad yr awdur, ystyriai *Stori Sam* fel ei fethiant mwyaf. Mae Sam yn mynd â ni i fyd natur ond mae'n mynd ymhellach o lawer na hynny. Mae'n breuddwydio ac yn dyheu a hynny drwy natur. Dihangfa yw byd natur iddo ac yn y dianc hwnnw y mae ei solas. Ymhyfrydai mewn hanes ac yn arbennig yn hanes ei fro a'i diwylliant. Rhydd ddarlun byw i ni o arferion, adloniant, gwisgoedd a bwydydd ei gyfnod yn tyfu i fyny mewn ardal wledig. Treiddia drwyddo hiwmor, doniolwch naturiol heb na malais na thrais ar ei gyfyl. Gwneud drygau diniwed welwn ni ar y tudalennau.

Yn drydydd, mae'n rhaid i lenor wrth ddychymyg. Yn ystod cyfnod gweinidogaeth Tegla roedd plant yn mynychu oedfa, Ysgol Sul a Band of Hope a byddai'n sicr o sylwi, dwyn i gof y

profiadau a'u trawsblannu yn ei ddychymyg. Rydym i gyd wedi cael profiadau rif y gwlith yng nghwmni plant ond mae'r llenor dawnus yn gweld ei gyfle. Ym 1925 cyhoeddodd y llyfr gofod cyntaf yn yr iaith Gymraeg ac meddai mewn llythyr at T. Gwynn Jones:

> Hanes dau fachgen yn mynd i'r lleuad ydyw. Nid oes fawr o ddim ynddi ond tybiais y buasai'n ffordd hwylus i blant ddyfod i wybod dipyn am y lleuad.
> (H. Ethall, *Tegla,* t.95.)

Yn ôl D. Tecwyn Lloyd, 'cam mawr ymlaen mewn darganfod gwir fyd plant ydyw Rhys Llwyd, y cam agosa ond un i'r un dwaetha, sef Stori Sam.' (D. Tecwyn Lloyd, *Safle'r Gerbydres ac Ysgrifau Eraill* t.73; hefyd H. Ethall, *Tegla,* t.96.) Yr hyn sydd yn y stori, y math cyntaf o ffuglen wyddonias, ydi hanes Dic a Moses yn osgoi mynd i'r seiat ac osgoi dysgu adnodau ac yn penderfynu mynd i'r lleuad lle nad oes na seiat nac adnod, am wn i! Priodas gelfydd sydd yma rhwng ffaith a ffuglen. Dengys ddiddordeb a gwybodaeth Tegla am ddirgelion y cread ond dengys hefyd ei fod wedi trwytho'i hun ym myd y plentyn.

Rhowch y nodweddion hyn efo'i gilydd ac mi gewch chi gyfaredd Tegla.

## DIWINYDDIAETH

Rhin y proffwyd a'i nwydau – a dynnodd
D'enaid i ofidiau;
Ni ŵyr gŵr orchfygu'r gau
Ond â phenyd a phoenau.
(Gwilym R. Tilsley)

Dro'n ôl roedd ysgrifenyddes Cymdeithas Hanes mewn ardal arbennig wedi camddeall fy neges dros y ffôn - 'Diwydrwydd Tegla' oedd y testun i fod ond yr hyn a gafwyd ar daflen digwyddiadau'r gymdeithas am y flwyddyn oedd 'Diwinyddiaeth Tegla'. Noson y ddarlith roedd gweinidog yn bresennol ac yn rhyfeddu fod Tegla yn ddiwinydd o gwbl. 'Pregethwr – ia,' meddai. 'Ond diwinydd - Na'. Credai Tegla'n angerddol yng ngallu'r weinidogaeth Ymneilltuol ac mewn pregethu'n arbennig. Ond ar wahân i'r sylfaen hon teimlai rwystredigaeth a gwrthryfel. Rhychwantodd dau ryfel byd gyfnod ei weinidogaeth a theimlai i'r byw am ei braidd a fethai ddod i delerau â chysoni mileindra a ffyrnigrwydd dyn ar y naill law a chariad Duw ar y llall. Pan ddechreuodd ar ei genhadaeth roedd hi'n uchel ŵyl ar grefydd ond pan oedd hi'n amser iddo 'eistedd' roedd y dyddiau da wedi hen fynd heibio a chrefydd ar drai. Gwelodd fan cychwyn y dirywiad hwn yma yn Nhregarth a hynny o fewn cyfnod byr o bum mlynedd. Pan ddychwelodd yma ym 1919 ar ôl ei gyfnod cyntaf 1911-13, gyda thair blynedd yn Llanrhaeadr ym Mochnant a'r Rhyfel Mawr drosodd, ei ymateb pruddglwyfus oedd: 'yr oedd yr hen chwilfrydedd ynglŷn â phethau crefyddol a Beibl wedi pylu. Deuent yno a gwrando, ond nid oedd mwy nac anesmwythder meddwl nac ysbryd ymchwil. Disgynasai barrug y rhyfel.' (E. Tegla Davies, *Gyda'r Blynyddoedd,* t.148.)

Mae'n barod iawn i geisio dehongli gwendidau a methiannau ei gyfnod ac mae'n gwneud hynny'n feiddgar a phlaen yn ei bregethau yn ogystal â'i waith llenyddol, yn arbennig ei ysgrifau o gadair yr 'Eisteddwr' yn yr Herald Cymraeg. Ond ym marn sawl un o'i edmygwyr nid oedd ganddo feddyginiaeth. Tybed? Dowch i ni geisio dod i'r afael â chraidd ei ddiwinyddiaeth.

Er nad oes ganddo 'run gyfrol ddiwinyddol i'w enw eto i gyd y mae modd olrhain pwyslais a thueddiadau diwinyddol Tegla wrth ddarllen ei gyfrolau llenyddol a'i bregethau. Yn 1914 cydolygodd gyfrol yn dwyn y teitl *Llestri'r Trysor* sy'n pwyso a mesur y pwyslais cymedrol ar feirniadaeth Feiblaidd ac ef ei hun a ysgrifennodd y bennod sy'n trafod galwad y proffwyd yng nghyfnod yr Hen Destament. Yn 1943 cyhoeddodd Llyfrau'r Dryw *Dechrau'r Daith*, llawlyfr o'i waith ar gyfer paratoi pobl ifanc i ddod yn aelodau eglwysig. Yr hyn a bwysleisir yn y gyfrol hon, ac yn wir yn ei gyfrolau eraill, yw'r graddau esgynnol o fodolaeth sy'n perthyn i'r byd gan ddadlau fod bywyd aderyn yn uwch nag un y planhigyn, a'r anifail yn uwch na'r aderyn a bywyd dyn yn uwch na bywyd yr anifail a bywyd y Cristion yn uwch na bywyd dyn. Rhydd bennod ac adnod i gadarnhau ei safiad: 'Oddieithr geni dyn drachefn (neu *oddifyny*) ni ddichon efe weled teyrnas Dduw' a Paul, 'Od oes neb yng Nghrist y mae efe yn greadur (neu yn well, yn *greadigaeth*) newydd.' (E. Tegla Davies, *Dechrau'r Daith,* t.12-13.) Mae'n mynd allan o'i ffordd i bwysleisio neges y Testament Newydd nas gall yr un dyn cyffredin droi'n Gristion heb i Dduw yng Nghrist ei ail greu.

Gellir dweud fod syniadaeth y ddiwinyddiaeth Ryddfrydol wedi apelio ato ond daliodd ei afael yn dynn yn y datguddiad Cristnogol fel yr oedd ef ei hun yn gyfarwydd â hi yn nhraddodiad diwygiadol ei enwad. Person Iesu yw canolbwynt ei weledigaeth a'i bwyslais arno fel gŵr ifanc a ddaeth â bywyd newydd i bobl. Y gŵr ifanc sy'n galw i brofiadau ac anturiaethau newydd. Gwendid crefydd ym mhob oes yw trefnu'n gyfundrefn ac ymhob cyfundrefn, boed enwad crefyddol neu ymerodraeth, y mae llygredd yn gynhenid ynddi. Meddai: 'ni chredodd Ef erioed mewn cyfundrefnau ond mewn eneidiau, a'r rheini wedi derbyn ei safonau Ef, ac yn cael eu tynnu'n reddfol at ei gilydd gan y cariad tragwyddol......cariad llethol y Groes. Cymdeithas, nid cyfundrefn.' (E. Tegla Davies, *Y Foel Faen,* t.179.)

Y mae'n gwbl ddiflewyn ar dafod yn ei feirniadaeth o'r gyfundrefn grefyddol ac o weinidogion. Mae pob un o'r gweinidogion a bortreadir gan Tegla yn ei lenyddiaeth yn amlygu rhyw wendid amlwg - anniffuantrwydd geiriog y Parchedig T. Cefnllech Roberts, balchder hunanbwysig y Parch John Pwlpudedig Jones neu ddiogi y Parchedig William Cicero Williams. Mae'n mynd ati gydag arddeliad i'w cystwyo yn ogystal â'r cyfundrefnau a'r cofiannau pregethwrol.

Ei nod oedd gwneud cymdeithas yn deulu. Mae'n feirniadol iawn o bregethwyr ieuainc y cyfnod pan oedd o'n hen ŵr, nid am eu bod yn salach pregethwyr na phregethwyr y ganrif o'r blaen ond am eu bod mor debyg iddyn nhw a'r amgylchiadau mor wahanol. Dweud mawr!

Yn ei gyfnod ef pan oedd y cyfundrefnau'n gwegian, beth oedd ei ateb? Yn sicr, nid eu huno ond eu defnyddio hyd oni ddelo bywyd newydd. Hyd oni ddelo'r gwanwyn. Ac yna rhydd eglureb i oleuo. Mae rhai coed yn yr hydref yn cadw'u dail, er eu bod wedi crino. Pwrpas y dail crin yw diogelu'r tyfiant newydd nes bod hwnnw'n ddigon cryf i wynebu'r elfennau. Nid difodi'r hen dyfiant ond eu cadw'n gysgod i'r bywyd newydd sy'n rhwym o ddod. A phan ddêl ni fydd angen yr hen gyfundrefnau.

Gŵr y gobaith oedd Tegla, gŵr y gwanwyn yr ydym wedi cyfeirio ato'n barod. Mae'n rhaid bod yn wastadol effro i'r grym hwn. 'Ofer', meddai 'yw wynebu heddiw â dulliau doe.' Y weledigaeth hon a'i cynhaliodd hyd yn oed, yn ei flynyddoedd olaf, yng nghyfnod yr 'eistedd'. Yn y gwanwyn yr oedd ei ddiddordeb Ef, a grym y gwanwyn yw pob dyfodiad o'r eiddo

Ef. Nid oes grym mwy dinistriol na grym y gwanwyn. Unig les hen wanwyn yw eu bod oherwydd eu marw yn troi'n wrtaith gwanwyn newydd. Y gwanwyn oedd sylfaen ei weinidogaeth ac am y gwanwyn hwnnw y pregethai. Y grym hwn a'r weledigaeth hon oedd yn ei gynnal a'i ysbrydoli.

Yr hyn a amlygir droeon yn ei waith yw ei ymgais i ddod i'r afael â phroblem poen a dioddefaint. Meddyliwn ni, yn aml, mai cosb yw dioddefaint. Yn hanes y gŵr dall o'i enedigaeth (Ioan 9: 1-12) cwestiwn y disgyblion i Iesu oedd, 'Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn ynteu ei rieni, i beri iddo gael ei eni'n ddall?' Mae ateb Iesu'n blaen, 'Ni phechodd hwn na'i rieni chwaith.....' Mae Tegla yn dilyn yr un trywydd a'i Feistr gan ddweud nad cosb yw dioddefaint y diniwed ond y mae'n mynd ymhellach: 'Yn wir, gall y dioddef fod yn gyfrinach ei wynfyd.' (E. Tegla Davies, *Y Sanhedrin,* t.19.) Hyd y gwelaf nid oedd y fath beth yn bod i Tegla â bywyd trwy lawenydd, dim ond y llawenydd a ddaw yn sgil dioddefaint. A dyma paham mai Crist y Groes, Crist Gethsemane yw'r unig Grist iddo ef. Dioddefaint yw bywyd; yr unig fywyd sy'n werth ei fyw. Y Crist y mae Tegla yn ei adnabod yw'r gŵr gofidus a chynefin â dolur y sonnir amdano yng Nghaneuon y Gwas, yn yr ail Eseia. A dyma yw'r bywyd llawn a'r bywyd delfrydol iddo. Ac yn ôl Tegla mae'r bywyd hwn yn arwain i'r unigeddau a'r ddiffeithwch gan mai yno, yn ei farn ef, y mae pob gweledigaeth i'w chael. Dro ar ôl tro mae'n rhoi catalog i ni o enghreifftiau o wŷr mawr yr unigeddau, Abraham, Moses, Paul yn niffeithwch Arabia, Ioan Fedyddiwr yn pregethu dyfodiad y Deyrnas a Iesu ei hun yn cychwyn ar ei genhadaeth a'i brofi yn yr unigedd gan y profwr. I Tegla mae bywyd a gweinidogaeth Iesu'n gwbl ddiystyr ar wahân i Groes Calfaria. Mae'n mynd ymhellach,

> Ac onid addewid yr Arglwydd oedd nid cyflwr di-ddioddefaint ond bywyd, a hwnnw'n helaethach, a cheinaf yn y byd yw bywyd, mwyaf yn y byd yw ei allu i ddioddef. A all Duw beidio â dioddef, a Christ beidio â dioddef, heddiw, wrth weld cyflwr y byd? Ac os felly, rhagfraint y gwaredigion yw *eu gallu i ddioddef* fel y Tad a'r Mab, canys y mae eu gwaith yn medru dioddef fel Duw yn dystiolaeth iddynt fod ceinder bywyd Duw ei Hun yn eiddo iddynt.'
> (E. Tegla Davies, *Y Sanhedrin,* t.21.)

Mi rydw i yn ei glywed, heddiw, yma yn Shiloh lle bu'n weinidog, yn ein hannog i droi at Iesu. Yr Iesu sydd ar dudalennau'r Testament Newydd. Y gŵr oedd yn gynefin â dolur yw ei unig Grist. Y Crist fu'n chwysu yn yr ardd, yn gwaedu ar y Groes ond a atgyfododd yn orfoleddus. Hwn yw ei ateb i'n hoes ac i bob oes.

Dyma enghraifft o ran o bregeth yn dwyn y teitl 'Yr Atgyfodiad a'r Efengyl' sydd wedi'i rhannu dan bum pennawd. Dyma'r trydydd pen:

> ***III. Yn ANIAN y Crist Atgyfodedig y mae'r beiddgarwch a all gynllunio iachawdwriaeth.*** Dychmyger yr olygfa. Dacwr ieuanc ar y lan na wyddai'r disgyblion pwy oedd, a heb unrhyw arwydd arno y gwyddai ddim am bysgota. Y mae'r disgyblion oll yn bysgodwyr profiadol, a'r gŵr ieuanc hwn yn beiddio dysgu pysgodwyr profiadol beth i'w wneud, – yn ceisio'u perswadio i fynd ar draws popeth a ddysgasant erioed er mwyn dal y pysgod. Beth a ddywedem ni, wedi blynyddoedd o brofiad i feistroli'n gwaith, petai rhywun yn dweud wrthym yn awdurdodol am sarnu ar ein holl brofiad a gwneud fel y cais ef, ac yntau heb ddangos fod ganddo unrhyw wybodaeth am ein crefft? Ac ni wyddent ar y pryd mai'r Arglwydd oedd. Tybed, os oedd unrhyw obaith am ddal pysgod y tu deau i'r llong i buasai pysgodwyr profiadol yn pysgota drwy'r nos y tu chwith iddi? A dyna'r llanc hwn yn eu cynghori i dorri ar draws pob rheswm a phrofiad er mwyn dal. Nid oedd ond un o ddau reswm dros hyn, – naill ai ei fod yn ynfytyn neu'n meddu beiddgarwch yn codi oddi ar weledigaeth a oedd y tu hwnt i'w profiad hwy, – profiad pysgodwyr profiadol.
>
> Ac eto yr Iesu a oedd yn iawn. Ganddo ef y mae'r weledigaeth a faidd dorri ar draws pob profiad a rheswm er mwyn dal. Dyna hanes yr Eglwys ym mhob oes, – mewn cyfnodau anobeithiol, y sawl a ddilyno feiddgarwch yr Arglwydd sy'n cychwyn cyfnod newydd o wanwyn yn ei hanes. A beiddgarwch go fawr oedd beiddgarwch y Gŵr a feiddiodd hyd yn oed wynebu angau gyda'r gred y gallai ei orchfygu. Yr oedd gorchfygu angau yn groes i brofiad a rheswm yr oesoedd.
> (E. Tegla Davies, *Y Ffordd,* t.67-8.)

Yn y paragraff olaf yna mae'n crynhoi holl ddyhead ei weinidogaeth ac yn clymu testun y ddarlith hon â'i weledigaeth yn ei bregeth.

Yn ei holl waith, llenyddol a chrefyddol, mae cerydd a swcwr, sialens ac arweiniad, dychryn ac esmwythâd. Ac mae'n cyrraedd y nod trwy rannu ei ragfarnau â ni. Mae'r rheiny'n lleng ac y mae llawer wedi'i gyhuddo o fod yn ŵr sur, pigog a phiwis. Ond yn ei ragfarnau y mae'n barod i weld rhyw gymaint o rinwedd hyd yn oed yn y pethau y gwêl ynddynt berygl a drwg.

Trwy y Groes a'r trugarhau – y gwelaist
Galon y sylweddau;
Y Gair sy'n fwy na'n geiriau:
Heb ymffrost aethost i'w hau.
(Gwilym R. Tilsley)

Sut mae crynhoi cyfraniad Tegla? Gweinidog diwyd a chydwybodol a rannodd ei ddoniau â'i genedl nid yn unig o fewn ffiniau ei enwad ond drwy'r trwch gan agor cwys newydd ac arloesol yn hanes llenyddiaeth plant. Rhoddodd yn ei bregethau a'i ysgrifau gipdrem dra gwahanol o fywyd a chenhadaeth Iesu. Y Crist dioddefus oedd yn mynd â'i fryd a llwyddodd i ddyrchafu a rhoi nod aruchel i'r Cristion oddi mewn i gymdeithas yn hytrach na chyfundrefn Gristnogol. Gwelai'r proffwyd hwn ymhell ac fel pob proffwyd mewn unigedd a diffeithwch y cyhoeddai ei neges ond daliodd ati er gwaetha'r amheuon a'r anawsterau, yn driw i'r diwedd. Da was, da a ffyddlon.

*HUW JOHN HUGHES*

BATHAFARN BACH

**Rhif 8 – Haf 2017**

© y cyfranwyr unigol

***Cyhoeddwr:***
Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

***Golygydd:***
Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth SY23 1ET
ffôn: 01970 617771 ebost: madden.aber@gmail.com

*Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddosbarthu gyda'r Gwyliedydd*

Argraffwyr: Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286 672018)